


Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Adroddiad ymchwil 126



Yn dilyn Grenfell:
mynediad trigolion
Grenfell i wasanaethau
cyhoeddus a
chymorth



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission

Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn, sy'n rhan o'n prosiect Yn dilyn Grenfell, yn cyflwyno profiad byw grŵp o bobl sydd wedi'u dadleoli a'u trawmateiddio gan y tân yn Nhŵr Grenfell ac sy'n teimlo'n ofidus o ganlyniad iddo. Mae'n dangos yr anawsterau a'r ansicrwydd parhaus y maent wedi'u hwynebu wrth geisio cael mynediad i ystod o wasanaethau cyngor a chymorth megis tai, mewnfudo, cymorth lles a gofal iechyd.

Cynhyrchom yr adroddiad hwn gan ein bod am sicrhau nad yw dimensiynau cydraddoldeb a hawliau dynol yr anawsterau parhaus y mae pobl yn eu hwynebu yn sgil y tân yn Nhŵr Grenfell yn cael eu hanwybyddu. Gobeithiwn y bydd yr ymchwil hon yn dylanwadu ar yr ymchwiliad swyddogol trwy gefnogi'r dadleuon y mae goroeswyr yn eu gwneud a helpu i roi llais i'w profiadau yn sgil y tân.

Ym mis Mai 2018, fe wnaethom gomisiynu Hil ar yr Agenda (ROTA) i gasglu tystiolaeth o brofiadau byw o ran cael gafael ar wasanaethau a chymorth ers y tân. Mae'r ymchwil ansoddol hon yn ystyried sut mae nodweddion pobl, megis eu hethnigrwydd, eu hoedran, eu rhyw neu eu statws mewnfudo, yn cyfuno i effeithio ar eu profiad. Mae eu hymatebion wedi'u fframio yng nghyd-destun yr hawliau dynol canlynol:

Yr hawl i dai digonol

Mae'r tân yn codi cwestiynau difrifol ynghylch a oedd Tŵr Grenfell yn darparu tai diogel a digonol ai peidio. Roedd methiannau yn y ddarpariaeth o wasanaethau sylfaenol a llety dros dro addas. Flwyddyn ar ôl y tân, nid oedd yr un o'r ymatebwyr wedi symud i lety tymor hwy. Roedd cydnabyddiaeth wael o anghenion ychwanegol ac addasiadau rhesymol wrth wneud penderfyniadau tai, yn enwedig ar gyfer pobl anabl, pobl hŷn, menywod a theuluoedd Mwslimaidd. Disgrifiodd preswylwyr gyflwr ofnadwy llety brys a thros dro wrth gael eu hailgartrefu, sy'n peryglu eu hiechyd corfforol a meddyliol. Roeddent yn teimlo'r pwysau i dderbyn llety anaddas mewn rhai achosion llawer pellach i ffwrdd, gan gynyddu bregusrwydd pobl.

Yr hawl i fywyd

Mae'r ymchwil yn rhoi enghreifftiau o ble y gallai gwahanol agweddau o'r hawl i fywyd fod wedi cael eu cyfaddawdu gan y tân. Roedd pryderon penodol ynghylch diffyg cynllunio priodol ar gyfer gwagio trigolion (gan gynnwys trigolion anabl) a dryswch ynghylch y polisi aros. Mae'r ymchwil yn codi cwestiynau ynghylch digonolrwydd y wybodaeth a'r cyngor a roddir i breswylwyr ar ddiogelwch tân ac a oedd trigolion yn ymwybodol o fygythiadau posibl i'w bywydau a beth i'w wneud mewn argyfwng. Roedd yna ddiffyg mecanweithiau cwynion ar gael i breswylwyr, gan adael llawer o bobl heb unrhyw fodd o godi pryderon ynghylch diogelwch tân ac yn ceisio gwneud iawn yn hwyrach. Mae'r hawl i fwynhau bywyd gydag urddas yn cael ei herio gan y profiad gwael o drigolion Mwslimaidd, nad oedd ganddynt fynediad i fwyd a dillad priodol, a phobl anabl, nad oedd mesurau diogelu arbennig bob amser yn cael eu hystyried ar eu cyfer.

Rhyddid rhag artaith, a thriniaeth greulon ac annynol neu ddiraddiol

Roedd yna ddirnadaeth bod gwasanaethau cymorth iechyd meddwl yn cael eu cydlynu'n wael. Nid oedd yn glir i ymatebwyr beth oedd y Grŵp Comisiynu Clinigol lleol ac ymddiriedolaethau iechyd meddwl wedi ei wneud i sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl yr un mor hygyrch i bawb. Roedd dyluniad a darpariaeth annigonol gwasanaethau yn sgil y tân, yn enwedig y dull gweithiwr allweddol, wedi gohirio adsefydlu ar gyfer y rheiny y mae'r tân wedi effeithio arnynt. Roedd hyn wedi cyfrannu at y niwed y mae pobl wedi'i ddiodeff a'i waethygu

Cydraddoldeb ac anwahaniaethu

Mae profiad y trigolion yn adlewyrchu'n ddifrifol dyluniad a darpariaeth wael y gwasanaethau sy'n arwain at ddarpariaeth gwasanaethau anghyfartal. Mae'r ymchwil yn rhoi enghreifftiau o ble na wnaeth awdurdodau cyfrifol addasiadau rhesymol i bobl anabl a'r graddau y ystyriwyd hygyrchedd mewn penderfyniadau tai. Mae hefyd yn codi cwestiynau ynglŷn â sut oedd awdurdodau perthnasol yn dangos eu bod yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cydraddoldeb ac atal gwahaniaethu, yn enwedig o ran hil ac ethnigrwydd a statws mewn fudo i deuluoedd yr ymadawedig.

Hawliau plant

Dengys ein hymchwil nad oes digon o wybodaeth am y plant y mae'r tân wedi effeithio arnynt a sut y cawsant eu trin ers hynny, yn enwedig o ran cymorth seicolegol. Disgrifiwyd y gwasanaeth cynghori a gynigir mewn ysgolion yn anghyson,

ac mewn rhai achosion yn absennol, gyda rhai ysgolion yn methu â darparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion a drosglwyddwyd. Gofynnodd rhieni am dueddiad yr ysgolion i beidio â chysylltu problemau ymddygiad â thrawma. Ni allwn wybod a ymgynghorwyd â phlant ynghylch pa wasanaethau gwybodaeth a chymorth yr oedd eu hangen arnynt a pha fesurau y mae awdurdodau wedi'u cymryd i fodloni'r gofynion hynny. Flwyddyn yn ddiweddarach, dywedodd y trigolion nad oedd y sefyllfa wedi gwella'n sylweddol i'w plant.

Mae'r enghreifftiau a godwyd gennym yn effeithio ar grŵp o bobl sydd wedi dioddef trawma a gofid sylweddol o ganlyniad i'r tân ac yn parhau i wynebu ansicrwydd mawr. Rydym yn gofyn i awdurdodau cyhoeddus ystyried y materion a amlygwyd yn yr ymchwil hon ac i gymryd camau i wella eu gwasanaethau yn sgil profiadau'r goroeswyr.

Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael [o'n gwefan](#).

Gellir cyfeirio cwestiynau a sylwadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at: correspondence@equalityhumanrights.com. Rydym yn croesawu'ch adborth.

I gael gwybodaeth am gael un o'n cyhoeddiadau mewn fformat arall, cysylltwch â: correspondence@equalityhumanrights.com.

Dewch o hyd i'n newyddion, digwyddiadau a chyhoeddiadau diweddaraf trwy [gofrestru i dderbyn ein e-gylchlythyr](#).

Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb (EASS)

Am gyngor, gwybodaeth neu arweiniad ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu neu hawliau dynol, cysylltwch â'r [Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb](#), gwasanaeth rhad ac am ddim ac annibynnol.

Ffôn 0808 800 0082

Ffôn testun 0808 800 0084

Oriau agor 09:00 i 19:00 (Llun i Gwener)
10:00 i 14:00 (Sadwrn)

Post FREEPOST EASS HELPLINE FPN6521

© 2019 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Mawrth 2019

ISBN: 978-1-84206-787-1

Gallwch lawrlwytho'r adroddiad hwn o

www.equalityhumanrights.com

© 2019 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Mawrth 2019

Front cover image © Brian Minkoff/Shutterstock.com



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission